# Tystysgrif costau diffygdalu

| Enw'r llys | Rhif yr Hawliad |
|---|---|
| Enw'r Hawlydd (gan gynnwys y cyfeirnod) | |
| Enw'r Diffynnydd (gan gynnwys y cyfeirnod) | |
| Dyddiad geni'r [Diffynnydd] [Hawlydd] | |
| Dyddiad | |

At [Dwrnai] [yr Hawlydd] [y Diffynnydd]

Gan nad ydych chi wedi codi unrhyw bwyntiau o anghydfod ynghylch bil costau'r [diffynnydd][hawlydd], caniatawyd costau'r hawliad ac mae'r cyfanswm o £ yn awr yn daladwy.

Rhaid i chi dalu'r swm hwn i'r [diffynnydd][hawlydd] [o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y gorchymyn hwn] [ar neu cyn [ ]]

Y dyddiad y bydd unrhyw hawl i log yn cronni dan y dystysgrif hon yw:-

1. yn ôl cyfanswm y bil, fel y'i hasesir, heb gynnwys costau'r asesiad, [dyddiad y gorchymyn]
2. ac yn ôl [£ , sef costau penodol yr asesiad, dyddiad y dystysgrif hon.

## Dalier Sylw

**I'r diffynnydd (hawlydd)**

**Os na fyddwch chi'n talu'n unol â'r gorchymyn hwn, gellid cymryd eich nwyddau a'u gwerthu neu gellid cymryd camau gorfodaeth eraill yn eich erbyn. Os bydd eich amgylchiadau'n newid a'ch bod yn methu talu, gofynnwch yn swyddfa'r llys am gyngor ynglŷn â beth i'w wneud.**

Gellid ychwanegu llog pellach lle bo'r dyfarniad a roddwyd am £5,000 neu ragor, neu ei fod yn ymwneud â dyled lle codir llog contractaidd neu statudol ar dalu'n hwyr.

Os nad ydych chi'n talu yn ôl y gorchymyn, gellid cofnodi'r dyfarniad hwn ar y Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon. Fe all hyn ei gwneud hi'n anodd i chi gael credyd. **Os byddwch wedyn yn talu'n llawn o fewn mis**, gallwch ofyn i'r llys ddileu'r cofnod oddi ar y Gofrestr. Bydd gofyn i chi brofi eich bod wedi talu. Gallwch hefyd (am ffi) gael Tystysgrif Dileu gan y llys. Os ydych chi'n talu'r ddyled yn llawn ar ôl mis, gallwch ofyn i'r llys nodi 'cyflawnwyd' wrth y cofnod ar y Gofrestr ac (am ffi) cael Tystysgrif Boddhad i brofi bod y ddyled wedi ei thalu.

## Cyfeiriad ar gyfer Talu

## Sut i Dalu

- **Rhaid GWNEUD Y TALIAD(AU) i'r sawl a enwir yn y cyfeiriad ar gyfer talu gan nodi eu cyfeirnod a rhif yr achos llys.**
- **PEIDIWCH â dod â thaliadau i'r llys na'u hanfon yno. NI CHÂNT EU DERBYN.**
- Dylech ganiatáu o leiaf 4 diwrnod i'ch taliad gyrraedd yr hawlydd (diffynnydd) neu ei gynrychiolydd.
- Cofiwch gadw cofnodion a gwnewch yn siwr eich bod yn gallu rhoi cyfrif am bob taliad a wneir. Efallai y bydd angen prawf os oes unrhyw anghytundeb. Nid yw'n ddiogel anfon arian parod heblaw eich bod chi'n defnyddio'r post cofrestredig.
- Mae taflen sy'n rhoi rhagor o gyngor am dalu ar gael gan y llys.
- Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch dylech gysylltu â'r hawlydd (diffynnydd) neu â'i gynrychiolydd.

Mae swyddfa'r llys yn

ar agor rhwng 10am a 4pm o ddydd Llun tan ddydd Gwener. Cyfeiriwch bob gohebiaeth at Reolwr y Llys gan nodi rhif yr hawliad.